



HAF 2021

Canllawiau i
ganolfannau sy'n
cofrestru ymgeiswyr
preifat

23 Ebrill 2021 – Fersiwn 2.0

Ymgeiswyr Preifat – haf 2021

Canllawiau i ganolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat

1. Cefndir

Mae trefniadau amgen ar waith ar gyfer dyfarnu graddau TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau cymeradwy yn haf 2021. Mae'r trefniadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gynnal asesiad digonol o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr er mwyn gallu cynhyrchu Gradd a Bennir gan Ganolfan. Rhaid i'r radd hon fod yn seiliedig ar gyrhaeddiad a ddangoswyd a bydd y broses a ddefnyddir i gynhyrchu'r graddau hyn yn cael ei sicrhau'n fewnol gan bob canolfan ac yn allanol gan CBAC.

Rydym wedi darparu canllawiau lefel uchel ar hyn yn ein [Canllawiau trosfwaol ar y trefniadau asesu amgen ar gyfer haf 2021 \(f3\)](#). Mae'r canllawiau hyn yn rhoi amlinelliad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat, sydd â'r bwriad o sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at gymwysterau yn haf 2021, ac mae'n rhoi trosolwg o rolau a chyfrifoldebau. Ni fwriedir iddo ddarparu gweithdrefnau gweithredol manwl. Bydd CBAC yn darparu mwy o fanylion i ganolfannau.

2. Ymgeiswyr preifat

Ymgeiswyr preifat yw ymgeiswyr nad ydynt wedi astudio gyda'r ganolfan arholiadau¹ sy'n eu cofrestru. Yn gynwysedig yn y grŵp hwn mae, er enghraifft:

- Dysgwyr oedran ysgol sydd wedi cael eu haddysgu gartref
- Oedolion sydd wedi astudio'n annibynnol
- Dysgwyr sydd wedi astudio gyda darparwr dysgu o bell nad yw'n cynnig cofrestru ar gyfer arholiadau.

Mae ymgeiswyr preifat yn cynrychioli grŵp amrywiol o ddysgwyr ac mae eu hanghenion unigol yn amrywio'n sylweddol. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i ddysgwyr mewn ysgol neu goleg sydd wedi astudio pynciau ychwanegol y tu allan i'r ysgol neu'r coleg.

Mae'r dulliau a amlinellir yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy, a chymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau a gynigir gan CBAC. Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir gan Eduqas, AQA, OCR, a Pearson sydd wedi'u datblygu i gydymffurfio â pholisïau a ddatblygwyd yn Lloegr.

¹ Ysgol neu goleg, neu sefydliadau addysgol eraill

3. Llwybrau cytûn ar gyfer ymgeiswyr preifat yn haf 2021 - ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy

Mae dau lwybr ar gyfer asesu ymgeiswyr preifat yn haf 2021.

A. Llwybr a asesir gan ganolfan

Lle mae gan ymgeiswyr preifat berthynas sefydledig gyda chanolfan sydd eisoes wedi cytuno i'w cofrestru ar gyfer cymhwyster a chynnal yr asesiad angenrheidiol o'u gwaith, gall y trefniadau hyn barhau yn ôl y bwriad. Bydd y canolfannau hyn yn ymgymryd â gweithgareddau asesu gan ddefnyddio'r un dull ag ar gyfer eu dysgwyr eu hunain, yn cynhyrchu Graddau a Bennir gan y Ganolfan ac yn cyflawni ceisiadau am adolygiad canolfan o raddau. Bydd angen i'r ganolfan gydymffurfio â chanllawiau Cymwysterau Cymru a gofynion CBAC er mwyn cynhyrchu Gradd a Bennir gan y Ganolfan.²

B. Llwybr a gynhelir gan ganolfan

Ar gyfer ymgeiswyr preifat nad oes ganddynt berthynas sefydledig â chanolfan, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i nodi canolfannau sy'n barod i dderbyn ymgeiswyr preifat ar draws rhanbarthau Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gefnogi costau cyflenwi canolfannau, os ydynt yn derbyn ymgeiswyr preifat newydd.³

Bydd CBAC yn chwarae rhan uniongyrchol yn y trefniadau asesu ar gyfer y dysgwyr hyn. Bydd CBAC yn pennu'r gofynion asesu, unwaith y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu gan y dysgwr i'r ganolfan, ac yn rhoi gwybod i'r ganolfan am yr asesiadau sydd i'w sefyll. Bydd ymgeiswyr preifat yn mynychu'r safle i gwblhau rhai o'r asesiadau gofynnol ac yn cyflwyno portffolio o waith a all gynnwys gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau. Bydd arholwyr CBAC yn marcio ac yn asesu gwaith y dysgwr i gynhyrchu gradd. Bydd CBAC yn seilio eu barn ar yr un canllawiau â'r hyn a ddefnyddir gan ganolfannau, gan gynnwys y disgrifyddion graddau cyhoeddedig.

Bydd CBAC hefyd yn ymdrin ag adolygiad Cam 1 o brosesau graddau. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y dyfarniad a wnaed ar y dystiolaeth yn ogystal â'r broses, yn unol â Chyfnod 1 ar gyfer dysgwyr eraill. Gall ymgeisydd preifat ofyn am apêl Cam 2 ar ôl diwrnod y canlyniadau. Bydd apêl Cam 2 yn cael ei chwblhau gan berson sy'n annibynnol ar yr adolygydd a oedd yn rhan o adolygiad Cam 1.

Gall rhai canolfannau fod mewn sefyllfa lle byddant yn gweithredu llwybrau A a B. Er enghraifft, mae'n bosibl bod canolfan wedi derbyn ceisiadau gan nifer fach o ymgeiswyr preifat ar gyfer cymwysterau penodol a bydd yn parhau i'w hasesu, yn ôl y bwriad, drwy lwybr A. Gall y canolfannau hyn hefyd dderbyn ymgeiswyr preifat newydd, a ddylai wedyn gael eu hasesu drwy lwybr B. Os oedd canolfan wedi ymrwymo i gofrestru dysgwr sydd ar ei

² Er enghraifft, mae'r dysgwr eisoes yn hysbys i'r ganolfan neu mae cofrestradau eisoes wedi'u derbyn dros dro.

³ Dylai darparwyr dysgu o bell sydd fel arfer yn gweithio gyda dysgwyr sy'n newydd a/neu'n anhysbys iddynt gysylltu â CBAC yn uniongyrchol am gyngor.

gofrestr ar gyfer cymhwyster nad yw'n ei gynnig, yna bydd angen cynnal yr asesiad drwy lwybr B eleni.

Credwn y bydd y ddau lwybr hyn yn darparu proses lle bydd gan ymgeiswyr preifat fynediad i raddau cymwysterau Cymru-yn-unig cymeradwy yr haf hwn.

Mae rhai gwahaniaethau rhwng y dull ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn canolfan a'r rhai a fydd yn cael eu cofrestru fel ymgeiswyr preifat drwy'r llwybr 'a gynhelir gan y ganolfan'. Fodd bynnag, credwn fod digon o debygrwydd i ddarparu cydraddoldeb o ran dull gweithredu ar gyfer pob dysgwr. Y mater allweddol yw mynediad cyfartal at gymwysterau.

Ymgeiswyr preifat yn ymgeisio am gymwysterau nas cymeradwywyd

Yn ogystal â dysgwyr sy'n dymuno ymgeisio am gymwysterau cymeradwy fel ymgeiswyr preifat, mae yna ddysgwyr hefyd sy'n dymuno ymgeisio am gymwysterau nad ydynt wedi eu cymeradwyo.⁴ Mae Ofqual a'r Adran Addysg yn cytuno ar y dulliau i'w defnyddio i alluogi'r dysgwyr hyn i gael eu hasesu ac i dderbyn graddau yn y cymwysterau hyn. Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o anghenion ymgeiswyr preifat yng Nghymru y gallai fod angen iddynt hefyd fanteisio ar y cymwysterau hyn a pharhau i archwilio pa ganllawiau pellach y gallwn eu darparu / cyfeirio ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) wedi cyhoeddi [Canllawiau Interim ar gyfer Canolfannau Ymgeiswyr Preifat](#) ar ei wefan.

4. Derbyn cofrestriadau ymgeiswyr newydd

Os yw dysgwr eisoes wedi'i gofrestru ar gyfer cymhwyster, boed fel ymgeisydd preifat ai peidio, yna ni ddylai newid i gael ei gofrestru fel ymgeisydd preifat na newid canolfannau i'w cofrestru fel ymgeisydd preifat gyda chanolfan newydd.

Os yw ymgeisydd preifat eisoes wedi'i gofrestru ar gyfer arholiad fel ymgeisydd preifat cyn 19 Mawrth 2021, a bod ei ganolfan wreiddiol wedi cadarnhau eu bod yn dal yn barod i fwrw ymlaen â'u hasesiad, yna gall hynny barhau.

Os nad yw ymgeisydd preifat wedi'i gofrestru eto, yna gellir gwneud cais ar ei gyfer yn ffenestr mynediad estynedig CBAC hyd at 26 Ebrill 2021. Y tu hwnt i'r dyddiad hwn, ni fydd cofrestriadau yn cael eu derbyn ar gyfer ymgeiswyr sy'n dilyn llwybr B. Gellir derbyn ymgeiswyr sy'n dilyn llwybr A yn ôl disgrisiwn y ganolfan os oes digon o amser i gwblhau'r asesiadau. Bydd ffi cofrestru'n hwyr yn berthnasol. Bydd y broses hon yn agored i ddysgwyr a fyddai fel arall dan anfantais pe na baent yn derbyn gradd yn Haf 2021, er enghraifft oherwydd y byddai'n eu hatal rhag symud ymlaen i gam nesaf eu hastudiaethau neu i gyflogaeth.

⁴ Cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo yw'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch hynny a gynigir gan Eduqas, AQA, OCR, a Pearson sydd wedi'u datblygu i gydymffurfio â pholisiau a ddatblygwyd yn Lloegr.

Ni fydd canlyniadau ymgeiswyr preifat yn cael eu cynnwys wrth ystyried canlyniadau cyffredinol y ganolfan yn haf 2021, nac yn cael eu cynnwys fel rhan o ganlyniadau cyhoeddus y ganolfan.

5. Crynodeb o ddisgwyliadau/cyfrifoldebau canolfannau sy'n cytuno i gofrestru ymgeiswyr preifat mewn canolfan - llwybr aseddig

Bydd canolfannau sydd eisoes wedi cytuno i gofrestru ymgeiswyr preifat sy'n hysbys iddynt yn:

- Cyfleu'r llwybr asesu sydd i'w gymryd gyda'r ymgeisydd preifat, yn yr un modd â dysgwyr sydd ar y gofrestr.
- Trefnu ar gyfer asesu'r ymgeiswyr preifat yn unol â manylion Fframweithiau a Chanllawiau Asesu Cymwysterau CBAC ar raddio. Yn ddelfrydol, bydd hwn yn ddull sy'n debyg iawn i ddull asesu dysgwyr ar y gofrestr.
- Cyflwyno cofrestrïadau i CBAC **erbyn 26 Ebrill 2021**.
- Casglu taliad am y ffioedd cofrestru gan yr ymgeisydd preifat. Bydd CBAC yn anfonebu canolfannau am ffioedd cofrestru⁵.
- Nodi a chadarnhau unrhyw hawl i drefniadau mynediad. Gallai hyn olygu bod angen asesu yn y ganolfan, cyn gwneud cais am drefniadau mynediad i CBAC. Efallai y bydd cymorth ar gael yn lleol hefyd drwy'r Awdurdodau Lleol. Gallai CBAC gadarnhau a oes gan y dysgwr drefniant mynediad cymeradwy byw cyfredol a natur y trefniant, gyda chaniatâd y dysgwr.
- Trefnu pryd y bydd yr ymgeisydd preifat yn ymweld â'r safle i gwblhau unrhyw asesiadau angenrheidiol ar y safle, a chyflwyno portffolio o waith, a chysylltu â'r tiwtor/darparwr addysg (y rhiant/gofalwr, efallai) ynghlŷn â'i ddilysrwydd. Gallai hyn fod unrhyw bryd hyd at 11 Mehefin 2021.
- Gweinyddu/goruchwylio'r gwaith o gwblhau tasgau asesu ar y safle, gan sicrhau bod trefniadau mynediad ar waith yn ôl yr angen.
- Trefnu'r asesiad ar y safle fel ei fod yn cydymffurfio â chynghor cyfredol ar iechyd y cyhoedd.
- Gweithredu dulliau gweithredu cyffredinol sy'n unol â Pholisi Asesu'r ganolfan mewn perthynas â meysydd megis: ymdrin â'r fanyleb, dewis asesiadau, darparu trefniadau mynediad, dilysu gwaith dysgwyr, storio tystiolaeth, cymhwyso ystyriaeth arbennig os yw'n berthnasol, dogfennu rhesymegol ar gyfer y penderfyniad ar Radd a Bennir gan y Ganolfan.
- Llenwi Cofnod Gwneud Penderfyniadau ar gyfer pob ymgeisydd preifat.
- Bodloni gofynion y broses adolygu graddau a phroses apelio Cam 2, os bydd yr ymgeisydd preifat yn gofyn amdani, fel ar gyfer dysgwyr ar y gofrestr.

Gweler y tabl yn Atodiad 1.

⁵ Mân ddiwygiad i'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn Fersiwn 1.

6. Disgwyliadau/cyfrifoldebau canolfannau sy'n cytuno i fynd i mewn i ymgeiswyr preifat mewn llwybr a gynhelir gan ganolfan a CBAC.

Bydd canolfannau sy'n cytuno i gynnal ymgeiswyr preifat⁶ yn:

- Cytuno i fod ar restr o ganolfannau sydd ar gael sy'n barod i dderbyn cofrestriadau newydd ar gyfer cymwysterau cymeradwy gan ymgeiswyr preifat. Bydd y rhestr hon o ganolfannau yn cael ei chyhoeddi a'i rhannu.
- Derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr preifat yn ymgeisio am gymwysterau cymeradwy
- Cyfleu gwybodaeth lefel uchel am y dull asesu cyffredinol a ddarperir gan CBAC (gan gynnwys gofynion cyffredinol am yr asesiadau, y dystiolaeth i'w chynnwys, cyflwyno gwaith portffolio a dilysu'r gwaith). Darparu ffurflen proffil asesu i'r ymgeisydd preifat, y bydd angen iddo ei dychwelyd i'r ganolfan, i'w rhannu â CBAC.
- Trefnu cyfleoedd asesu ar y safle, fel y nodir gan CBAC, ac unrhyw drafodaethau pellach sydd eu hangen.
- Cyflwyno cofrestriadau i CBAC **erbyn 26 Ebrill 2021** a nodi ymgeiswyr preifat fel y cyfryw pan wneir y cofrestriad i CBAC⁷
- Trefnu i'r ymgeisydd preifat dalu'r ffioedd cofrestru.
- Nodi a chadarnhau unrhyw hawl i drefniadau mynediad. Gallai hyn olygu bod angen asesu yn y ganolfan, cyn gwneud cais am drefniadau mynediad i CBAC. Efallai y bydd cymorth ar gael yn lleol hefyd drwy'r awdurdodau lleol. Gallai CBAC gadarnhau a oes gan y dysgwr drefniant mynediad cymeradwy cyffredol a natur y trefniant, gyda chaniatâd y dysgwr.
- Trefnu pryd y bydd yr ymgeisydd preifat yn ymweld â'r safle i gwblhau unrhyw asesiadau angenrheidiol ar y safle, yn ogystal â'r angen i gyflwyno portffolio o waith, a chysylltu â'r tiwtor/darparwr addysg (y rhiant/gofalwr, efallai) ynglŷn â'i ddilysrwydd. Gallai hyn fod unrhyw bryd hyd at 11 Mehefin 2021.
- Gweinyddu/goruchwyllo'r gwaith o gwblhau tasgau asesu ar y safle, fel y cytunwyd gyda CBAC, gan sicrhau bod trefniadau mynediad ar waith yn ôl yr angen. (Os nad yw ymweliad ar y safle yn bosibl, yna gallai fod angen goruchwyliaeth o bell).
- Trefnu'r asesiad ar y safle fel ei fod yn cydymffurfio â chynghor cyffredol ar iechyd y cyhoedd.
- Os nad yw'r dysgwr yn gallu sefyll yr asesiad(au) ar y diwrnod(au) y cytunwyd arnynt, yna bydd angen trefnu amser arall.
- Os oes angen ystyried ystyriaethau arbennig o ran y dysgwr, bydd angen i'r ganolfan hysbysu CBAC.
- Storio'r dystiolaeth asesu yn ddiogel a sicrhau bod hyn ar gael yn unol â chyfarwyddyd CBAC.
- Os yw'r ymgeisydd preifat yn gofyn am adolygiad o'r radd, a/neu apêl Cam 2, yna rhowch wybod i CBAC am y cais hwn.

⁶ Fel yr amlinellir yn adran 2, efallai y bydd ymgeiswyr preifat yn cael eu cofrestru drwy lwybrau A a B.

⁷ Os yw ganolfan yn cofrestru dysgwr ar y gofrestr ar gyfer cymhwyster nad yw'n cael ei gynnig yn y ganolfan, bydd angen asesu hyn drwy lwybr B. Bydd angen i'r ganolfan nodi hyn wrth CBAC ei hun.

⁸ Mân ddiwygiad i'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn Fersiwn 1.

- Rhoi gwybod i'r ymgeisydd preifat am ganlyniad unrhyw adolygiad o radd, a/neu apêl Cam 2, gan CBAC.

Gweler y tabl yn Atodiad 1.

Bydd CBAC yn:

- Cyfleu gofynion asesu gyda'r ymgeisydd preifat, trwy'r ganolfan sy'n eu cynnal. Gall hyn olygu darparu briff asesu yn amlinellu meysydd y fanyleb a gaiff eu hasesu.
- Rhoi gwybod i'r ganolfan am yr asesiadau y bydd eu hangen. Mae'r rhain yn debygol o fod yn gyn-bapurau wedi'u haddasu ar gyfer yr asesiadau ar y safle, yn ogystal â phortffolio gwaith.
- Cynghori ar gyflwyno tystiolaeth asesu i CBAC. Gallai hyn fod unrhyw bryd hyd at 11 Mehefin 2021.
- Trefnu ar gyfer marcio'r holl waith a chynhyrchu graddau.
- Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith i gefnogi cywirdeb y dyfarniadau hynny o fewn y cymhwyster ac ar draws cymwysterau eraill.
- Llunio Cofnod Gwneud Penderfyniadau o'r dyfarniad a darparu hyn i'r ganolfan, i'w rannu gyda'r ymgeisydd preifat. Mae angen i hyn gynnwys sail resymegol dros y dyfarniad a wnaed.
- Cynnig cyfle i'r ymgeisydd preifat ofyn am adolygiad o'r radd honno.
- Gweithredu prosesau i sicrhau bod adolygiad o radd yn cael ei gynnal gan berson annibynnol.
- Rhoi gwybod i'r ganolfan am ganlyniad yr adolygiad o radd.
- Prosesu'r radd drwy systemau gofynnol CBAC.

7. Sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r dull

Bydd Cymwysterau Cymru yn:

- Darparu'r canllawiau trosfwaol hyn i ganolfannau sy'n derbyn ymgeiswyr preifat.
- Cyhoeddi gwybodaeth am y llwybrau sydd ar gael i ymgeiswyr preifat, gan weithio'n agos gyda grwpiau rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau mynediad i'r wybodaeth, gan gynnwys Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref, Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda CBAC i sicrhau trefniadau addas ar gyfer ymgeiswyr preifat.

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau cefnogaeth gan ganolfannau i dderbyn cofrestrïadau ymgeiswyr preifat fel rhan o lwybr a gynhelir gan ganolfannau.
- Cyhoeddi rhestr o ganolfannau sy'n barod i dderbyn ymgeiswyr preifat.
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer costau cyflenwi, y gellir ei ddefnyddio'n hyblyg yn dibynnu ar y cyd-destun lleol.

- Sicrhau bod gwybodaeth am y llwybrau a'r cymorth sydd ar gael yn cael ei rhannu'n eang â grwpiau perthnasol, drwy'r Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref a grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Darparu canllawiau gweithredol ynghylch cyngor cyfredol ar iechyd y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol yn 2020-21 i awdurdodau lleol i roi cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i gydnabod costau ychwanegol y bydd teulu sy'n addysgu yn y cartref yn eu hysgwyddo wrth ddarparu adnoddau a chyfleoedd sydd fel arfer ar gael am ddim yn yr ysgol – gallai hyn gynnwys cymorth ar gyfer ffioedd cofrestru ar gyfer cymwysterau.

Bydd awdurdodau lleol yn:

- Gweithio gyda chanolfannau i sicrhau bod nifer digonol o ganolfannau yn barod i dderbyn ymgeiswyr preifat ar lwybr a gynhelir gan y ganolfan.
- Gweithio gyda chanolfannau i gefnogi asesu trefniadau mynediad os oes angen (e.e. drwy argaeledd aseswyr cymwysedig).
- Gweithio gyda sefydliadau eraill, i sicrhau bod mynediad yn deg (gallai hyn gynnwys cymorth gyda chludiant i ddysgwyr ag anableddau, er enghraifft).

Atodiad 1

Rhestr tasgau – i gefnogi cynllunio pellach

Tasg	Ar gyfer pob llwybr, byddai hyn wedi'i gwblhau erbyn:	
	Asesir gan ganolfan	Cynhelir gan ganolfan
Darparu data cofrestru i CBAC	Canolfannau	Canolfannau
Talu ffi cofrestru arholiadau	Ymgeiswyr preifat	Ymgeiswyr preifat
Cadarnhau a gwneud cais am drefniadau mynediad drwy system CBAC. (Gallai hyn gynnwys asesu'r dysgwr i gadarnhau'r hawl).	Canolfannau	Canolfannau
Gwneud cais am drefniadau mynediad drwy system CBAC	Canolfannau	Canolfannau
Gofyn i'r dysgwr gwblhau cofnod proffil asesu, er mwyn llywio gwybodaeth am y sylw a roddwyd i'r fanyleb a chynllunio asesu addas	Canolfannau	Canolfannau
Dewis tasg(au) asesu ar gyfer y dysgwr yn seiliedig ar y cynnwys y mae wedi'i astudio. Dylai hyn gynnwys rhywfaint o waith y gellir ei gwblhau i ffwrdd o'r ganolfan, yn ogystal â peth y gellir ei gwblhau ar y safle. Gellid cyflwyno gwaith math NEA fel rhan o'r portffolio gwaith, er enghraifft.	Canolfannau	CBAC Bydd yn cynnwys cyn-bapurau wedi'u haddasu ⁹
Cynhyrchu tasgau asesu, ac eithrio cyn-bapurau wedi'u haddasu a ddarperir gan CBAC (os yw'n berthnasol)	Canolfannau	CBAC
Sicrhau bod asesiadau risg priodol ar waith ar gyfer ymweliadau ar y safle (bydd y rhain yn cael eu hategu gan gyngor Llywodraeth Cymru)	Canolfannau	Canolfannau
Gweinyddu/goruchwyllo'r gwaith o gwblhau tasgau asesu ar y safle	Canolfannau	Canolfannau
Marcio'r asesiadau a'r gwaith a gyflwynwyd	Canolfannau	Arholwyr CBAC
Asesu a dilysu unrhyw dystiolaeth a gynhyrchir y tu allan i'r ganolfan, fel y cytunwyd yn yr amlinelliad asesu a'r gofynion	Canolfannau	CBAC
Defnyddio tystiolaeth i gynhyrchu Gradd gychwynnol a Bennir gan y Ganolfan	Canolfannau	CBAC
Cwblhau'r cofnod gwneud penderfyniadau	Canolfannau	CBAC
Prosesau sicrhau ansawdd mewnol fel yr amlinellir ym Mholisi Asesu'r sefydliad	Canolfannau	CBAC
Trafod y dyfarniad gradd gyda'r dysgwr unwaith y bydd yr holl dystiolaeth wedi'i chasglu a'i hasesu	Canolfannau	Canolfannau

⁹ Fel yr amlinellir yn Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC.

Cyflwyno gradd i CBAC	Canolfannau	CBAC
Sicrhau ansawdd allanol	CBAC	CBAC
Cwblhau adolygiad o'r radd, os gofynnir amdano	Canolfannau	CBAC
Rhannu canlyniad yr adolygiad gyda'r dysgwr	Canolfannau	Canolfannau
Cam 2 yr Apêl - gwirio am wallau gweinyddol a/neu resymoldeb barn, os gofynnir amdano	CBAC	CBAC
Rhannu canlyniad cam 2 yr apêl gyda'r dysgwr	Canolfannau	Canolfannau